YR YMOFYNYDD

RHYDDID · GWIRIONEDD · CARIAD

Y Gwirionedd a'ch Rhyddha chwi.

RHIF 4] EBRILL, 1923 [PRIS 3c

.. CYNHWYSIAD. ..

AR ADEN FFYDD.
RHYDDID.
YSPRYDION.
DAU BREGETHWR MAWR.
ARWEINYDDIAETH IESU.
PREGETH.
PRIODAS.
MARWGOFION.
MANION AC HANESION.

Llandyssul:
Argraffwyd gan J. D. Lewis, Gwasg Gomer.

YR YMOFYNYDD.

Golygydd — PARCH. T. ARTHUR THOMAS, Llandyssul.

Pris 3c. y mis ; drwy y *Post*, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy y *Post*.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwr, Mr. J. D. LEWIS, Swyddfa'r "Ymofynydd," Llandyssul.

.. Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru. ..

... CYNHELIR ...

Cyfarfodydd Chwarterol

Y GYMDEITHAS UCHOD, YN

NGHAPELYBRYN, CWRTNEWYDD

DYDDIAU MERCHER ac IAU, EBRILL 4ydd a'r 5ed, 1923.

Trefn y Cyfarfodydd—

Nos Fercher, am 6.30—Pregethir gan y Parchn. D. Conwil Evans, Rhydygwin, a T. O. Williams, Llanbedr.

Dydd Iau, am 9.30—Pwyllgor y Gymdeithas.
" 10.30—Pregethir gan y Parch. D. Evans, Cribyn.
" 2—Pregethir gan y Parchn. E. R. Dennis, Aberdar, a E. O. Jenkins, Llwynrhydowen.
" 6—Pregethir gan y Parchn. D. G. Rees, Trebanos, a T. A. Thomas, Llandyssul.

Dymuna eglwys Capelybryn gael cyfarfodydd lluosog, ac estyna wahoddiad cynes i bawb.

T. E. Jones & Co.,

— LLANDYSSUL. —

Flour Millers & Provender Millers, Merchants, Wholesale Grocers, &c.

YR YMOFYNYDD.

Cylchgrawn Misol y . . .
Gymdeithas Undodaidd Gymreig.

"*Profwch bob peth, deliwch yr hyn sydd dda.*"—*Paul.*

CYFRES NEWYDD.] EBRILL, 1923. [CYF. XXIII RHIF 4.

AR ADEN FFYDD.

GETHSEMANE. (M.H.)

Tra t'wynai'r lloer ar Gedron dlos,
Fe glywid llais yn nyfnder nos ;
Mewn ing gweddiai'r Iesu mad,—
"Aed heibio'r cwpan hwn, O Dad!"

Dydi sy'n drist hyd angau'r groes,
Gorchfygwn yn dy farwol loes ;
A'r ddae'r ar ran ei phlant rydd lef—
"Dad, nac aed heibio'i gwpan ef."

Di, Gyfaill holl alarwyr byd !
Ein nerthu gawn drwy'th angau drud ;
Mae'th enw yn falm i'r galon brudd—
I'r unig, nefol gysur rydd.

O, Flaenor Mawr, pwy ond Tydi
All arwain y meithyrol lu !
A'u dysgu i herrio rhwystrau'r byd,
Ac ar gyfiawnder roddi eu bryd ?

Di, Frenin dae'r, esgynna'th groes !
Dy orsedd yw 'mhob gwlad ac oes ;
Yn d'wydd blodeua'r anial le,
A daw yn rhan o Deyrnas Ne'.

Rho'th fendith in' wrth 'madael 'nawr ;
Un gorlan gwna o'r nef a'r llawr ;
A phan drwy'r olaf daith yr awn,
Rho'th roesaw in' i'r Gwynfyd llawn.

(*Cyf.* E. CEREDIG JONES.) Dr. JAMES MARTINEAU.

RHYDDID.

GAIR mawr ein hoes yw'r gair Rhyddid. Awgryma llawer mai'r unig ffordd at ryddid yw ffordd Chwyldroad. Dywed ereill fod gennym ormod o ryddid heddyw, ac y dylid cwtogi arno mewn amryw gyfeiriadau. Ereill eto ddywedant fod gennym ddigon o ryddid i'n gwneyd yn hapus, ac nad oes eisiau cyfnewid llawer ar bethau. Y Rhyddid mewn golwg y rhan fynychaf yw rhyddid economaidd, neu mewn geiriau ereill, rhyddid mewn materion ariannol a chymdeithasol. Ond er fod yna gysylltiad agos rhwng *Economics* a Rhyddid, eto y mae Rhyddid yn beth llawer dyfnach na'r hyn a gawsem trwy gyfnewidiad yn ein cyfundrefn boliticaidd a chymdeithasol. Nis gall cyfundrefn (*system*) ohoni ei hun gynyrchu bywyd. Nis gall Senedd ohoni ei hun sicrhau rhyddid deiliaid gwlad. Yr unig beth fedrwn ddisgwyl oddiwrth ddeddfau a threfniadau politicaidd *yw gwell cyfle* i sicrhau rhyddid, hapusrwydd, a dynoliaeth. Fel mater o ffaith, ychydig sydd yn manteisio ar y cyfleusterau sydd gennym yn barod. Fel mewn Addysg Elfennol rhaid gorfodi rhai o hyd i fanteisio ar gyfleusterau'r ddeddf, a'r gyfundrefn. O bosibl ein bod yn disgwyl gormod oddiwrth Senedd a Chynghor heddyw. Y mae'r syniad wedi ymledu y gall Senedd Sant Stephan gynnyrchu unryw beth y dymunir am dano. Disgwylir nefoedd newydd a daear newydd oddiwrthi fel canlyniad ei deddfu manwl. Ond nid ydyw wedi dod hyd yn hyn, ac ni ddaw Teyrnas Nefoedd wrth ddisgwyl, meddai'r Gair. Y mae trefniadau politicaidd a deddfau yn bethau angenrheidiol; ond ynddynt eu hunain y maent yn ddi-nerth. Os na fyddant yn gynnyrch tyfiant gwir fywyd ymysg y werin, yn fuan dirywiant i fod yn ormes llyfetheiriog. Rhaid i'r Gydwybod Gyhoeddus gyd gerdded a deddfau'r Wladwriaeth, neu ni cheir fawr o ddaioni.

Heddyw, fel y sylwais, y mae gwaeddi mawr am Ryddid. Nid oddiwrth un dosbarth y daw'r waedd aniddig.

Y mae aniddigrwydd ymhlith pob dosbarth o gymdeithas, y ffermwyr, y glowyr, yr ysgolfeistriaid, y doctoriaid, y tafarnwyr, ac hyd yn nod y pregethwyr—pob dosbarth mewn cymdeithas a'i ddyrnau i fyny, fel 'tase, ac yn barod i ymladd dros ei '*hawliau*,' fel y dywedant—nemor un yn sôn am yr hyn elwir yn ddyletswydd. Y pregethwyr yw'r unig ddosbarth mewn cymdeithas sydd heb fod ar *strike*; ac y mae rheswm da iawn am hynny.

Un rheswm am yr aniddigrwydd hwn yw ein bod yn yr oes hon yn camgymeryd y gair Rhyddid. Yr ydym yn ei esbonio yn gul a phartiol. Rhaid cofio mai nid mater o '*gael*' yn unig yw rhyddid, ond mater o '*roi*' yn ogystal. Y mae yna Ryddid sydd yn gaeth-

iwed, ac y mae yna gaethiwed sydd yn 'berffaith ryddid.' Meddylier am foment am y dyn anwar ynghanolbarth yr Affrig. Y mae yn frenin ei fro—'*monarch of all he surveys.*' Gall adeiladu ei dy ple mynno yn y goedwig. Ni chospir trespaswyr yno. Gall rodio a hela ple y mynno. Nid oes yno glawdd ffin, na deddf, na *County Council*, na *Parish Council* am wn i—dim post llidiart hyd yn nod i roi terfyn ar ei ryddid. Nid oes raid iddo sefyll mewn *ciw*, na thalu treth, na myn'd i gapel nac eglwys. Rhyddid, meddech chwi, ie, rhyddid ofnadwy. Dim tŷn i'w ddal, dim codi yn y boreu, dim gwaith i'w wneyd, dim un math o gyfrifoldeb—dyna ryddid gogoneddus, onide!

Ah, eithr nid yw ei ryddid ond caethiwed blin wedi'r cyfan. Y mae ei ryddid fel gefyn haiarn am dano. Yn gyntaf, yslâf yw i Natur oddiamgylch iddo. Nid gwâs iddo yw Natur, ond ei feistr caled. Eled un *crop* yn fethiant, a dyna ei fywyd a bywyd ei deulu mewn perygl. Y mae un ystorm wyllt yn y goedwig yn ddigon i ddistrywio ei gartref. Un *raid* arno gan lwyth gelyniaethus cyfagos, a dyna ei fywyd a'i feddiannau wedi myn'd. Ansicr yw ei gysur, ei eiddo, a'i fywyd, er ei holl ryddid. Ond mewn gwledydd gwareiddiedig y mae cyflwr gwahanol ar bethau. Ceir gennym ni ddeddfau ddiogelant fywyd ac eiddo; ac er ein bod yn fynych yn anniddig odditan eu gweithrediadau, eto hwy sydd yn diogelu ein gwir ryddid. Cymerer deddfau trefnedig cymdeithas i ffwrdd, ac yna, yr ydym ar unwaith yn ol yn y *jungle* gyda'r *savage*. Nid yw deddfau cyfiawn, felly, yn caethiwo'r dyn da; ond yn hytrach hwy sydd yn ei ddiogelu rhag drygioni'r drwg. Boddlona i gyfyngu ar ei hun er mwyn enill ei wir ddaioni a'i wir ryddid.

Nid yw Rhyddid yn golygu byw *heb* ddeddfau, eithr byw mewn ufudd-dod i ddeddfau cyfiawn. Y mae yna wahaniaeth dirfawr rhwng rhyddid a phen-rhyddid. Y mae gwir ryddid yn golygu nid yn unig 'hawl,' ond dyletswydd, cyfrifoldeb, ac ufudd-dod hefyd. O'i ddilyn i'w wreiddiau, cwestiwn moesol ac ysbrydol yw Rhyddid. Ystâd yr Enaid ydyw. Y mae uwchlaw amgylchiadau. Y dyn rhydd yw'r un sydd wedi dysgyblu ei feddwl a'i enaid i wrthsefyll hunanoldeb ei natur, ac i ddwyn ei ewyllys i gytgord ag Ewyllys Uwch.

> "Our wills are ours we know not how,
> Our wills are ours to make them Thine."

Pan ysgrifennodd Tennyson y geiriau hyn, yr oedd wedi profi perffaith ryddid—trwy ufudd-dod. Yr oedd wedi gafaelyd yn y gwirionedd sydd yn rhyddhau. Yr oedd wedi profi'r Tangnefedd sydd uwchlaw pob deall. Yr oedd wedi ei ryddhau oddiwrth wendidau, amgylchiadau, a thrallodau ei fywyd. Yr oedd wedi derbyn nerth i ymryddhau oddiwrth eu caethiwed.

Y mae'r cwestiwn o ryddid yn un cang a dwfn-dreiddiol, ac efallai y ceir hamdden i ymdrin ymhellach a'r pwngc rywbryd eto. Rhaid cofio yn awr am y gofod, ac am amynedd y golygydd. Terfynwn trwy ddweyd nad ydym am foment yn dibrisio brwydrau y tadau dros Ryddid, ond dylem gofio mewn cyfnod fel y presennol fod yna ddau fath o ryddid—y gau, lle mae dyn yn rhydd i wneyd yr hyn *a hoffa*, a'r gwir, lle mae dyn yn rhydd i wneyd yr hyn *a ddylai*. Nid yw rhyddid llawer heddyw ond rhyddid yr haid foch hynny gynt a redasant dros y dibyn i'r môr, gan foddi. Gofynodd John Locke gynt, "*Is it worth the name of freedom to be at liberty to play the fool?*" Ai rhyddid i wneyd ffolineb ydym ni yn ofyn am dano heddyw? O daflu trem dros y byd, nid oes sicrwydd pa beth ydym yn myn'd i wneyd o'r rhyddid sydd gyda ni, heblaw sôn am gael mwy ohono.

Bydded i ni goffo geiriau James Russell Lowell, y bardd Undodaidd o'r Amerig, "Rhaid i Weriniaeth ddangos gallu i gynnyrchu y *types* uwchaf posibl o ddynoliaeth, neu bydd yn fethiant. Nad beth a wna dros y corff, os na fedr ddigoni'r enaid a'r pethau hynny a'i cyfyd uwchlaw'r materol, bydd yn fethiant."

A ydyw Gweriniaeth ddiweddar wedi gwneyd hyn? Y mae yn y cloriannau ac yn cael ei phwyso. Gofalwn na cheir hi yn fyr.

Northampton. D. Cellan Evans.

CHWILIO AM DDUW.

Ymagor mae fy enaid
Am rywbeth mwy na'r byd,
Pe teflid iddo'r Cread
Dolefai "moes" o hyd;
Creawdydd y bydysawd—
Y Duwdod Mawr ei hun,
Yn unig all ddiwallu
Anghenion dyfnion dyn.

Pa le caf afael arno,
A chydio yn ei law?
Ai yn y mor diderfyn?
Ai yn yr wybren draw?
Ai yn y seiniau rhyfedd
Sy'n torri ar fy nghlyw?
Ai ynddynt hwy'n ymguddio
Y mae'r tragwyddol Dduw.

Mae'm llygaid gwan yn pylu
With syllu ar y mor;
Ond ust! mae'n sibrwd wrthyf
"Nid fi yw cartre'r Ior."
Ie, felly etyb natur
I ddyheadau'm bron;
Ysprydol a thragwyddol
Yw dwfn anghenion hon.

O, cyffwrdd, Arglwydd grasol,
A'r dwyfol ynof fi,
A gwna im' deimlo beunydd
Dy bresenoldeb Di:
Yn nagrau cydymdeimlad
Ceir ysbryd "y peth byw,"
All uno'm enaid egwan
A holl gyflawnder Duw!

Aberdar. Ioan Gruffydd.

YSPRYDION.

EBE Fontenelle (1657—1757), yn ol Voltaire, y dyn mwyaf ei athrylith yn ei oes: "Nid wyf fi yn credu mewn ysprydion, ond yr wyf yn eu hofni." Sefyllfa hynod ydyw honna. *Genius* mwyaf ei oes hefyd cofier. Hawdd ydyw chwerthin; ond ni wna hynny esponio dim. Mae'r esponiad yn gorwedd yn ddwfn yn rhywle yn natur dyn, yn ei wendid feallai,—neu yn maes yr is-ymwybyddiaeth, lle y dywedir fod gwir garitor dyn yn gorwedd; ond pa un ai'r credu neu'r gwrthgredu sydd yno, mae'n anodd penderfynu, am hynny gadawaf i ystyriaeth y darllenydd.

Cofiaf fy nhad yn adrodd lawer gwaith rywbeth tebyg. Yr oedd yn yr ysgol gyda D. Dafis, Castell Hywel, ar y pryd. Yn yr hwyr, byddai ef a rhai o'r ysgolorion eraill yn cydgwrdd mewn *shop* gyfagos, ac fel yr oedd yn arferiad cyffredin, daethai rhyw bwnc neu gilydd yn bwnc ymddiddan. Un tro, daeth pwnc yr ysyrydion gerbron. Dadleuid gyda chryn lawer o boethder—fy nhad yn ameu, ac yn ameu yn gryf. Yn mhen amser daethai'r ymwahanu, ac elai yntau allan—*i'r tywyllwch*—ar ei ffordd i'w lety. Dechreuai holi—holi ei hunan, Beth os oedd ysprydion wedi'r cwbl, ac yntau wedi bod yn gwadu? Ar hynny, dyna fe'n gosod ei draed yn y tir, ac yn rhedeg, gyflymed ag y gallai, nes cyrraedd y tu fewn i ddrws ei lety.

Dyna Fontenelle, *second edition*. Ebe'r Parch. Dafydd Llwyd, yn ei Hunan-fyfyrdod wrth rodio liw nos—tebyg yntau—cyn ac wedi.

Fy ngwallt ar fy nghorryn a ddechreu, gan ddychryn,
Ymgodi bob cudyn ar linyn i'r lan;
Fy nghalon sy'n chwareu yn nglyn wrth fy ngliniau,
A'm chwys drwy rwyd dyllau rêd allan.
'Does yma fy nghalon ond un o blant dynion,
Nid lledrith na lladron elynion o lin,
Rhyw frwntyn mi wranta sy'n cethin gwrcatha—
Mi chwardda'n llon eitha'—llwyn eithin!

T. C. U.

Y GWANWYN.

Yn awr yr adar a gynnar ganant,
Oll ar y mawnydd, lle yr ymunant
Yn briodasol; (manol eu mwyniant)
Mewn bwriad hoywych mwyn barotoant
Deiau pluf i gadw eu plant—anwylion
Rai addas gwiwlan, a wir ddisgwyliant.

Eu hygar annedd a hoyw gywreiniant,
Gwiw eithaf seiri, eu gwaith fesurant,
A chlai a mwswm yn awchlym asiant,
Blew mân a sidan yn nghyd osodant;
O foddion oll ganfyddant,—fo gweddaidd,
Yn lladronaidd i'r unlle dirwynant.

Allan o awdl Daniel Ddu i'r "Gwanwyn."

DAU BREGETHWR MAWR.

Yn 1865, neu ychydig cyn neu wedi hynny, digwyddodd i mi fod yn nghymydogaeth Llanbedr-Pont-Stephan, ac yn ystod yr un adeg digwyddodd Cymanfa Fawr y Methodistiaid gael ei chynnal yn yr un lle, a chefais innau y fraint a'r pleser o fod yn bresennol yn un o'r cyfarfodydd—yr unig dro erioed. Cynhelid y Gymanfa yn yr awyr agored, mewn cae ychydig y tu allan i'r dre. Yr oedd y cynhulliad yn lluosog iawn, yn ddigon mawr, gallwn feddwl, i lanw hanner dwsin o'r capelau. O ba le yr oeddynt wedi dod i gyd, nis gallaf ddychmygu. Prin y gellid disgwyl cymaint tyrfa yn dyfod yn nghyd o ardal wledig prin ei phoblogaeth. Ond dyna nhwy o ba le bynnag y daethant—cynulliad aruthrol fawr o bregethwyr a gwrandawyr, rhai yn sicr wedi dod o bellder ffordd.

Ar ol cynifer o flynyddau, nis gallaf fanylu llawer, ond fe erys ar fy nghof argraff byw am ddau o'r pregethwyr—y ddau a glywais yn traddodi eu cenadwri, a'r ddau enwocaf yn eu ffordd eu hunain o holl weinidogion yr enwad ar y pryd. Gwahaniaethent oddiwrth eu gilydd yn mhob ystyr. I ddefnyddio ymadrodd cyffredin ar lafar gwlad, yr oeddynt mor bell ag yw'r pegynau oddiwrth eu gilydd.

Nid wyf yn cofio pwy ddechreuodd y cwrdd na dim am y canu. O bosibl nad oedd dim yn neilldiol nodweddiadol yn perthyn i'r naill na'r llall—dim i dynnu sylw. Credaf eu bod i'w canmol am hynny. Nid dyna ddiben cyfarfod addoli. Y cyntaf i bregethu oedd y Parch. Ddr. John Harris Jones, M.A., LL.D., gwr pwysig yn yr enwad, ac athraw ar y pryd yn Ngholeg Trefecca. Edrychid arno fel gwr dysgedig, ac yr oedd rhywbeth yn y bregeth i adael argraff ar y sawl fyddai yn gwrando. Yr oedd yn hoff waith gan aml i bregethwr yn yr amser gynt i gymysgu tipyn o'r ieithoedd tramor yn eu pregethau. Gwnelai Dr. Jones hynny. Yr oedd hynny yn "oglais clust" i lawer un o'r gwrandawyr, ac yn awgrym dysg, os nad yn awgrym doethineb. Tipyn o Roeg y Testament Newydd fydd gan y rhan fwyaf*, er fy mod yn cofio clywed am Gymro yn traddodi ei genadwri yn Lloegr yn gwneud yn wahanol. Nid oedd yn hyddysg yn yr ieithoedd tramor, ond gwyddai am wendid y cyhoedd, a theimlai y byddai yn ddymunol i'w gyfarfod yn rhyw fodd neu gilydd, os gallai. Ebe efe ar ganol y bregeth:—"As a celebrated foreign author has learnedly said—'Os oes yma Gymro yn bresennol, tawed!'" Atebodd hynny ei bwrpas yn llawn cystal a phe byddai wedi traethu ymadrodd Groeg neu Hebraeg.

Er yn Gymro, nid hynny a wnaeth y Dr. Harris Jones. Yr oedd efe wedi treulio rhai blynyddau yn yr Almaen, ac wedi ei raddio yn Ddr. yno, ac felly yn naturiol cyfeiriai at ddysgedigion Almaenaidd, a'r hyn ddywedid ganddynt hwy ar y pwnc oedd ganddo ef mewn llaw; ond nid oeddwn i yn gallu gwel'd fod y bregeth na'r dyfyniadau Almaenaidd wedi dwyn goleuni nac ysprydoliaeth i nemor un o'r gwrandawyr. Yr oedd gwaith Dr. Harris Jones yn dyfynnu, fodd bynnag, yn waith *genuine*, oblegid fe ddeallai efe beth oedd ganddo mewn llaw. Eto efe yn fwy na neb arall a ddygodd i arferiad cyffredin y dyfynnu *tybiedig* o'r awduron Almaenaidd gan rai na wyddant abiec yr iaith. Parodd hyn yn ddiweddarach i'r dysgedigion

* Sylwer ar *Ymofynydd* 1848—1858 am gadarnhad.

tybiedig gael eu cyfrif yn gwacyddion y pwlpud, a'u dyfyniadau Almaenaidd i gael eu galw yn *German Barm.* Fel hynny yn mhen amser y gwawdiwyd yr arferiad allan o fodolaeth.

Ar ol y Dr. Harris Jones fe bregethodd y Parch. Edward Mathews, Ewenny, gwr hynach ac addfetach na Dr. Jones, a mwy profiadol yn mhob ystyr. Ni welwyd yr un arwydd fod Mr Matthews wedi bod yn yr Almaen, ac nid oedd ganddo yr un o'r llythyrennau yna sydd yn llanw llygaid ambell un, ar ol ei enw. Credaf fi y gosodir gormod o bwys weithiau ar y cyfryw lythyrennau. Maent yn buriou fel *Introduction.* Gellir eu cyfrif fel *Hall Mark** i ddynodi fod eu perchen wedi cael hyn a hyn o addysg ; ond os na fydd yna bersonoliaeth — personoliaeth mawr—y tu cefn i'r llyth'rennau, ofer fydd disgwyl am y dyn mawr.

Nid wyf am fanylu dim yng nghylch mawredd Dr. Jones na Mr. Matthews,—mae'r ddau wedi mynd i ffordd yr holl ddaear er ys blynyddau. Buont yn ddynion defnyddiol a da yn eu dydd. Heb nac os nac ond fe wyddai Mr. Matthews y ffordd i bregethu. Yr oedd wedi cael profiad maith. Traddododd ei bregeth gyntaf yn 1830, a chafodd ei urddo yn 1841. Yr oedd yn feistr ar iaith ei fam ; yr oedd hefyd yn lenor coeth. Ystyriaf "Nyth y Dryw," a ymddangosai o fis i fis yn y *Cylchgrawn*, o'r hwn yr oedd efe ar y pryd yn Olygydd, ar rai ystyriaethau yn gystal tamaid o lenyddiaeth a dim yn yr iaith. Un o anghenion cyntaf pregethwr yw *llais.* Yr oedd gan Mr. Matthews lais ardderchog. Cofiaf broffeswr enwog unwaith yn ceisio darlithio—ficer y lle yn y gadair. 'Roedd gan y ficer lais da, a dywedodd wrthym yn ei anerchiad agoriadol, y gallai'r proffeswr ein goleuo ar unrhyw bwnc. Yr oedd hynny yn newydd dymunol iawn ; ond pan agorodd y proffeswr ei ben, dangosodd nad oedd ganddo ddim digon o lais i ateb ei bwrpas. Hyspys ddigon yw'r ymadrodd Rhufeinig — "Llais a dim ond hynny." Cyffelyb yw byrdwn yr hen gân Gymreig — "Swn, swn, Rhywbeth ihyfedd o swynol yw swn." Ceir tipyn o speng yn y ddau.

Nid oes dim i'w edmygu mewn pregethwr nad oes ganddo ddim ond swn ; ac nid oes dim llawer mwy i'w edmygu yn y darlithydd na fedr wneud ei hun yn glywadwy i'r rhai sydd yn y drydedd sedd oddiwrtho.

Rhaid yw wrth lais. Yr oedd gan Mr. Matthews lais da, a medrai ei ddefnyddio i bwrpas. Gollyngai ef allan mor felusber ag organ Sant Paul yn Llundain, ac mor gyrhaeddbell ag i syrthio ar glustiau y pellaf o'r dorf yn glywadwy ac yn glir.

Pan welwn ni long yn ymlithro allan o'i hangorfa ac yn cyrraedd y dyfnder yn ei llawn hwyliau, gallwn gasglu ei bod yn barod i'r cam nesaf ; ac ar ol clywed Mr. Matthews am bum munyd, hawdd gwybod ei fod yn feistr ar ei waith ac yn addfed i'w gyflawni. Gorchwyl anodd oedd gan Syr Marshall Hall yn ei anerchiad y dydd o'r blaen, a dywedir ei fod yn gosod holl amrywiaeth seiniau'r Gamut at ei wasanaeth, a hynny yn fedrus iawn fel ag i adael yr argraff a fwriadai ar feddyliai y *jury ;* yn gyffelyb fe ddefnyddiai Mr. Matthews yr holl adnoddau yn ei feddiant, o ba natur bynnag y byddai eisiau, fel na byddai ei oreu ar ol.

Sylwer ei fod yn ymyl tref Doriaidd, a bron o dan gysgod Coleg Dewi Sant, lle'r oedd rhagfarn yn gryf yn erbyn pob math o anghyddffurfiaeth ; ac yn wyneb torf mor amrywiol a'r un a annerchwyd gan

---

* Fe ŵyr y darllenydd beth yw yr *Hall Mark* ar y llwyau gartref sydd yn dangos eu bod yn llwyau *arian.*

Paul gynt oddiar yr Areopagus. Ond heblaw llais, a medr i ddefnyddio ei lais, yr oedd gan Mr. Matthews genadwri, nid i'w frodyr Methodistaidd fel y cyfryw. Nage, nage, yr oedd Mr. Matthews yn fwy o Gristion nag o Fethodist, a'i Gristionogaeth ar ei goreu a draddodwyd ganddo, i bawb o bob enwad, cydffurfwyr ac anghydffurfwyr o bob gradd a dosparth.

Dyma'r tant y chwareuodd arno, a thant melus yw: "Deuwch ataf fi bawb a'r sydd yn flinderog ac yn llwythog. . . . . a chwi a gewch orffwysdra i'ch eneidiau" (Matt. xi. 28—30); "Jerusalem, Jerusalem, ... pa sawl gwaith y mynnaswn gasglu dy blant . . . . ac nis mynnech!" (Matt. xxiii. 37).

Un waith erioed y clywais i'r Parch. Mr. Spurgeon yn pregethu, a hynny yn y *Theatre* yn Glasgow, ac un waith y clywais i Mr. Matthews, a chan y ddau y troion hynny ni chlywais yr un tinc anghydgordiol.

R. J. J.

ARWEINYDDIAETH IESU.

"Gwnaed y sylw gan John Stuart Mill, yr athronydd enwog, yn ei Draethawd ar Ryddid, na ellid atgofio dynion yn rhy aml fod yna ddyn unwaith o'r enw Socrates. Mae hynny'n wir; ac eto pwysicach yw atgofio dynion, drachefn a thrachefn, fod yna ddyn o'r enw Iesu, wedi byw unwaith yn en plith" (Harnack).

Ymddengys y geiriau yna'n rhai cymwys fel rhagymadrodd i'r pwnc dan sylw—

Arweinyddiaeth Iesu.

Mae'n wir na siaredir yn union yn yr Efengylau am Iesu fel Arweinydd. Cyferchid ef yn gyffredin fel Rabbi neu Athraw; ond nid un yn dangos y ffordd yn unig yw'r gwir Athraw, ond un a ä o flaen ei ddisgyblion ar hyd y ffordd. Gadawer inni, gan hynny, eistedd yn barchus wrth draed yr Athraw, er atgofio elfennau ei Arweinyddiaeth. Ar elfen gyntaf ac amlwg yn ei Arweinyddiaeth yw symlrwydd ac eglurder. Gwnai Iesu ei genadwri a'i apel yn syml a dealladwy. Yn wir, gellir cyfyngu ei genadwri i ddau bwnc—Duw fel Tad, a gwerth anfeidrol yr enaid dynol. Dywedai'r Iesu'r oll oedd ganddo i'w ddywedyd am Dduw a'i briodoleddau mewn un gair. Tad yw! Dyna'r cwbl; ac y mae hynny'n bopeth. Canys mae Tadoldeb yn golygu maboliaeth; golyga deulu o ddynion a chenhedloedd, a phob aelod yn rhwym wrth y llall â rhwymau ysprydol—er prinned yr arwyddion. A phan ddywedodd ei ddisgyblion wrtho, "dysg inni weddio," dysgodd iddynt ychydig ymadroddion syml ac eglur, a'r cwbl mor rhydd o gulni ac ofergoel, ac mor llawn o ymddiried a gobaith ysprydol, fel y mae'n weddi annwyl gan feddyliau a chalonnau pobl a phlant hyd heddyw. A phan cymharom hi a'r rhan luosocaf o'r gweddiau a glywir gennym heddyw, yn yr eglwysi a sefydlwyd ar ei enw, mor rhyfedd yr ymddengys eu symledd.

Pan yn meddwl am bethau fel hyn, deallir gennym fod ei Arweinyddiaeth yn ddyledus am ei llwyddiant cymharol i'w symlrwydd. Dyma'r rheswm pam "y gwrandawai y bobl gyffredin ef yn ewyllysgar." Llefarai eu hiaith. Nid yn unig byddai ei ymadroddion wrth bregethu yn syml, ond byddai eu

sylwedd felly hefyd. Tynnai ei wersi a'i egluriadau oddiwrth alwedigaethau beunyddiol pobl oddiamgylch iddo ym mhob man, a rhyfeddodau beunyddiol natur. Fel y darllenwn ei addysgiadau a'i ddamhegion, ar ol pedair canrif ar bymtheg o amser, gellir tynnu darlun lled gywir gennym o alwedigaethau ac arferion ei ddydd ef, a dysgir inni hefyd am natur a golwg y wlad. Mwynheir gennym lawenydd y wledd briodasol. Clywir gennym gwynfan yr orymdaith angladdol; gwelir gennym y pysgotwyr gyda'u rhwydau ar doriad y wawr; y casglwr trethi wrth ei alwedigaeth; y wraig yn tylino'r toes; yr hwsmon ar y maes. Arddangosir inni y gwr goludog wedi ei wisgo a phorffor a lliain yn ei gartref, ac yn adrodd ei weddiau'n y cyhoedd. Gwelir y cardotyn yn disgwyl am elusen. Cofia'r wraig weddw drallodus yn ei thrallod am eraill mwy trallodus na hi ei hunan, a theifl ei hatling i'r drysorfa—yr oll oedd ganddi. Bywyd yn ei wahanol gyflyrau oedd dechreu a diwedd, a swm a sylwedd ei holl bregethu; yn caru ac yn gofidio; yn gobeithio ac yn ofni; yn ameu ac yn credu; yn llafurio ac yn gorffwys; ar ochr y bryniau ac yn y dyffrynoedd; yn y ddinas boblog ac yn unigedd tawel y wlad. Ac eto, allan o wirioneddau syml o'r fath yna y gweithiwyd ganddo y wê ardderchog ac amlochrog ag y sydd hyd y dydd hwn yn "newyddion da" i ddynion.

Yr ail nodwedd amlwg yn nysgeidiaeth Iesu yw ei chynnwysfawredd. Y mae'n syml, ac eto'n eang; yn dal perthynas â dyledswyddau agosaf bywyd, ond ar yr un pryd yn cynnwys y gobeithion goreu a'r ffydd ddyfnaf. Arferid cysylltu ag enw'r Iesu, ac a'i enw ef yn unig, yr anrhydedd o ddarganfod rhês o wirioneddau newydd ac hollol wreiddiol—Tadoldeb Duw—Brawdoldeb Dyn—y Rheol Euraidd—y Gwynfydau—a'r holl addysgiadau ysprydol a geir yn y Bregeth ar y Mynydd.

Ond rhagoriaeth a gogoniant mawr Iesu oedd iddo i gymeryd at y gwirioneddau nerthol hyn, ac adnabod eu gwerth, a deall eu gwir ystyr, fel gwirioneddau addas i oleuo ac arwain dynion ar eu taith ar y ddaear am byth. Credwn mai dyna'r peth neilltuol amlwg ynghylch Iesu, a'r hyn a bair iddo ragori ym mhell ar bawb eraill fel Athraw. Dyna'r rheswm pam yr edrychir ato fel Arweinydd. Casglodd, unodd, cyflawnodd, cwblhaodd, a phregethodd yr holl bethau ardderchog a fuont o'r blaen; ac wrth eu pregethu, gadawodd arnynt yr argraff o athrylith ysprydol—un wedi ei ddonio â'r

Yspryd Uwchlaw Mesur.

A dyna'r hyn a wna'r genadwri'n un mor gynnwysfawr, ac yn apel mor eang, at wahanol bersonau a phleidiau. Na, ni wyddis am ddim yn hanes yr holl fyd mor gynnwysfawr a Christionogaeth Iesu. Er lluosoced, a gwyched, a gwerthfawroced yw y gwelliantau a wnaed ac a wneir at wasanaeth a chysur dyn, ni ddygant inni ddoethineb ysprydol dyfnach. A phan yn ceisio am y ffordd gul a arweinia i'r bywyd ac i'r gwynfyd, mae'n rhaid troi'n ol i'r amser a fu ac i gyfeiriad Nazareth Cydgyferfydd brenhinoedd, a doethion, a bugeiliaid eto, oddiamgylch crud y Crist, a dygant eu rhoddion iddo ef o'u trysorau goreu.

Ond yr elfen bwysicaf mewn Arweinyddiaeth yw personoliaeth. A chyda'r Iesu, yr oedd yr addysg a'r bersonoliaeth yn un. Yn hanes bywyd yr Athraw, fel ei rhoddir inni yn yr Efengylau, mae yna gydbwysedd rhyfeddol rhwng y bregeth a'r bywyd ymarferol. Nid oedd yn ddigon gan Iesu i lefaru y Gwynfydau heb wneud ei fywyd ei hunan yn ardderchocaf ohonynt oll, na llefaru y Gorchymyn mawr cyntaf heb ufuddhau iddo ei hunan, na llefaru Dameg y Samariad Trugarog heb fod ei hunan

Yn Gyfoethog mewn Gweithredoedd Da.

Mae dylanwad Cristionogaeth wedi bod erioed yn ddyledus i fesur mawr i'r ffaith fod bywyd Crist yn fwy ac yn rhagorach hyd yn oed na'i ddysgeidiaeth. A dywedwn yn hyf fod personoliaeth Iesu yn fwy ac yn rhagorach nag unrhyw gredo y gall llaw dyn ei hysgrifennu, neu unrhyw athrawiaeth y gall meddwl dyn ei chyfansoddi. Ynddo ef yr oedd Bywyd, a daeth ei Fywyd ef yn oleuni dynion; ac y mae Bywyd a goleuni yn gwneud i fyny eto'r hyn a elwir gennym yn Arweinyddiaeth Iesu.

Dywedwn eto wrth deifynu, "y dylid atgofio dynion, drachefn a thrachefn, fod yna ddyn o'r enw Iesu wedi byw unwaith yn ein plith." Mae arnom, fel personau unigol, eisiau cael ein hatgofio pan yn dilyn ein galwedigaethau arferol, i'n helpu i fyw'n deilwng ynddynt.

C.C.

PREGETH GAN Y DIWEDDAR GWILYM MARLES.

"*Eto dyweded Seion, yr Arglwydd a'm gwrthododd, a'm Harglwydd a'm hanghofiodd. A anghofia gwraig ei phlentyn sugno, fel na thosturio wrth fab ei chroth? ie, hwy allant anghofio, eto myfi ni'th anghofiaf di.*"—Esaiah xlix. 14, 15.

Mae llawer wedi dal mai am "Grist a'r Eglwys" y llefara'r proffwyd yn y bennod hon. Mae dwy ystyriaeth y dymunwn eu nodi paham nad yw yr olwg hon yn ymddangos i mi yn gywir. (1) Yr wyf yn cael boddlonrwydd i fy meddwl fy hun mai at ddigwyddiadau yn perthyn i amser eu llefariad, at amgylchiadau y pryd hwnw yn cymeryd lle neu ar droed y ffordd i gael eu cyflawnu y mae cyfeiriad yn mhob man yn y rhanau hynny o'r Hen Destament a ant yn gyffredin o dan yr enw o broffwydoliaethau. Beirdd a dysgawdwyr oedd y proffwydi; nid oedd rhagddweyd pethau dyfodol ond un rhan, a hono y rhan leiaf pwysig o'u swydd; a phan y gwnaent hyn, ymddengys mai am yr hyn oedd gerllaw, am yr hyn yr oedd eu sylw a'u myfyrdod yn rhagarwyddo iddynt ei fod ar gael ei ddwyn o amgylch y llefarent. Dynion eu hoes oedd y proffwydi, yn ysgrifenu am helyntion eu hoes eu hunain. Nid nad oeddent yn canfod yn mhellach nag ereill; gwelent yn graffus ac yn mhell. Cawn mai un o'r enwau arnynt yw gweledyddion, nid nad oedd eu golygiadau hwy yn rhagori ar eiddo eu cydoeswyr. Safent ar dir uchel: "Safaf ar fy nysgwylfa ac ymsefydlaf ar y tŵr a gwyliaf," meddai un o honynt; ac oddiar y tir uchel hwn edrychent allan, gan wylio'r cwrs oedd pethau yn gymmeryd. Gwelent hwy y nen yn duo, a'r cymmylau yn crynhoi, neu ynte, wawr gobaith yn tori, a phelydrau cyntaf llwyddiant yn ymwasgaru o flaen mwyafrif eu cydgenedl; a gwasanaethent fel geneuau dros Dduw, weithiau i rybuddio a cheryddu, ac weithiau i galonogi a chysuro eu cyd-ddynion. Mae yr olwg hon ar y swydd broffwydoliaethol yn fy nhueddu i ddeall y bennod hon fel manau ereill fel yn cyfeirio at ryw gyfnod nes at y proffwyd nag amser Crist. (2) Mae'r iaith a arferir yma mor gymhwys, y desgrifiadau a roddir mor daraw-

iadol, er gosod allan y tro dedwydd ar bethau ag yr oedd calonau ffyddlonaf y genedl y pryd hwnw yn hiraethu am dano, a'u meddyliau yn ei ganfod yn nesu at gyflawniad, sef dychweliad yr Iuddewon alltudiedig yn Mabylon i dir eu gwlad. Cymerai ormod o amser yn awr i fyned dros y bennod o'r dechreu er dangos hyn. Gwasanaethed yr adnodau yn union o flaen y testyn fel enghreifftiau. Yn yr adnod o flaen y testyn, darlunir mewn iaith hedegog a chyffrous y llawenydd yr oedd y rhagolwg am y dychweliad yn enyn yn meddwl y proffwyd—llawenydd y gelwir ar y greadigaeth o amgylch i gyfranogi o hono: "Cenwch, nefoedd, a gorfoledda ddaear; bloeddiwch ganu y mynyddoedd," &c. "Eto y dywedodd Seion." With Seion yma y deallwn Jerusalem, prif ddinas y bobl alltudiedig. Gosodir hi allan, ar ol cael ei hamddifadu am dymhor mor faith o'i phreswylwyr, a'i gwneyd yn gartref anghyfanedd-dra a galar, fel yn anmharod i gredu fod y fath lawenydd yn stôr iddi; yr oedd y newydd yn rhy dda iddi i allu ei dderbyn. Wrth fwrw golwg ar yr amser hir y bu ei phreswylwyr yn aros mewn gwlad ddieithr, ac ar faint y caledi y darostyngwyd hwy iddo yn nhir eu caethiwed, hi a ddywedodd: "Yr Arglwydd a'm gwrthododd a'm Harglwydd a'm hanghofiodd." I hyn mae'r proffwyd yn ateb mai nid felly yr oedd, ond fod serch Duw at ei bobl yn fwy sicr, yn fwy dianwadal nag hyd yn nod eiddo mam at ei phlentyn. O'r ddau, fod cryfach sicrwydd na fuasai Duw yn anghofio ei bobl nag oedd na wnaethai serch mam oeri at ei phlentyn sugno. "Ie, hwy a allant anghofio," nid oedd hyn tuhwnt i derfynau posibilrwydd. Fel y mae rheswm, weithiau, oblegid rhyw achosion nas gallwn ni, dichon, eu holrhain, yn dyrysu yn ei gwrs, neu'r gydwybod yn methu yn eu gwaith, felly hefyd mae yn bosibl hyd yn nod i serch cynhes a greddfol y fam, i anghofio ei wrthddrych, "eto myfi nid anghofiaf di;" nid oedd yn beth i'w ddychymygu am funyd y buasai Duw yn pallu yn ei ffyddlondeb. "Wele ar gledr fy nwylaw y'th argreffais;" i ddangos nas gallasai Duw anghofio Jerusalem, gesyd y proffwyd ef allan yn mhellach fel yn ei hanerch, ac yn dweyd wrthi fod y darlun o honi megys wedi ei gerfio ar ei ddwylaw, ac yn wastad yn ei olwg, a bod yr olwg ar y darlun hwn yn ei chadw mewn coffadwriaeth wastadol ger ei fron: "dy furiau sydd ger fy mron bob amser." Fel hyn mae'r iaith a ddefnyddir yma mor uniongyrchol a hollol gyfaddas tuag at osod allan yr amgylchiadau cydfynedol â dychweliad yr Iuddewon i dir eu gwlad, fel nas gallaf fi weled y priodoldeb o'u troi at ddim arall.

Dichon y dywedir wrthym gan y rhai a fyntumiant fod ystyr ddeublyg i'r proffwydoliaethau, fod y geiriau hyn ac ereill tra yn cyfeirio yn mlaenaf at y dychwelad o'r caethiwed, yn cyfeirio hefyd yn ail at waredigaeth y genedl o gaethiwed gwaeth trwy Iesu Grist. Yr ateb i hyn yw: nid ydym yn gwadu nas gellir *cymhwyso* yr ymadroddion a'r desgrifiau a gawn yma, ac mewn rhanau ereill o'r proffwydoliaethau, at amser Crist, a hyny gyda llawer o briodoldeb, fel yr ydys yn wir wedi gwneyd yn dra helaeth gan ysgrifenwyr y Testament Newydd; ond y cwestiwn blaenaf i ni i'w ofyn yw, at ba beth yn debyg y cyfeiriai'r proffwyd ar y pryd, am ba ddigwyddiadau yr oedd ef yn *ymwybodol* ei fod yn llefaru. Nid oes dim allan o le mewn cymhwyso, ond cadw mewn cof mai cymhwyso yr ydys. Peth arall yw dal fod y proffwyd yn llefaru ar y pryd nid gydag un meddwl, ond gyda dau feddwl. Mae digon o enghreifftiau yn nghynnyrchion llenyddol pob cenedl o ymadroddion yn cael eu cymhwyso oddiwrth un peth at beth arall: a gellir sylwi mai y fath uwchaf, fwyaf ehediadol o gyfansoddiadau, a drinir yn y modd hwn. Peth arall hollol yw dal fod gan yr ysgrifenwyr olwg ar y pryd ar ragor nag un peth. Ond mi a adawaf y pwnc hwn ar hyna, ac ni a adawn yr

Iuddewon hefyd, i geisio ed ych am ychydig amser ar y testyn, yn yr addysg odidog a gynnwysa i ni ac i bawb.

Pob peth sydd wedi ei ysgrifenu, mal er addysg i ni. Wrth rodio ar hyd feusydd yr ysgrythyrau yma, mae'r meddwl ystyriol yn lloffa tywysenau gwerthfawr o addysg a chysur ar bob cam. Mor hyfryd i ni yn awr yw darllen profiadau nefol yr hen saint, a'r tystiolaethau eglur a chadarn maent yn ddwyn i ddaioni a ffyddlondeb Duw, a doethineb ei drefnau. Gellid meddwl fod y Beibl i fod,—ac hyderaf ei fod bellach ar droed y ffordd i hyn—yn llyfr nid i'n rhanu a'n dieithrio oddiwrth ein gilydd fel Cristionogion; nid i fod yn fath o ysglyfaeth ag mae pob plaid am ei pheirchenogi iddi ei hun gan erlid pob un arall i ffwrdd, ond yn llyfr i'n huno yn nghyd, i'n dwyn yn agosach at ein gilydd, ac i gydymdeimlo a chydweithredu â'n gilydd yn fwy. A phaham? Am ei fod yn dangos i ni mor amlwg mai'r un peth yw'r natur ddynol yn mhawb yn mhob man; mai yr un yw hi yn awr a phan oedd yr hen broffwydi a'r Apostolion wedi hyny yn rhodio ar y ddaear, am ei fod yn dangos i ni fod yr un cwestiynau yn cael eu gofyn, yr un anhawsderau yn cael eu teimlo gynt ag sydd yn awr; ac yn mhellach, mai'r atebion a roddwyd y pryd hwnw; mai'r ffyrdd a gawsent hwy allan y pryd hwnw i gwrdd â'r cyfryw anhawsderau, mai'r sylfeini i'w hymddiried, i'w cysur a'u gorfoledd ag oeddent adnabyddus i saint yr hen amser; mai'r cyfryw a brofir gan y da a'r doeth yn yr oes hon hefyd y goreu, y mwyaf addas ar gyfer ein bywyd helyntus ni ar y ddaear hon yn awr. Yn hytrach, gan hyny, nag aros gyda'r llythyren, ac ymrafaelio yn nghylch pynciau ffydd a chredoau, onid gwell fyddai i ni fyned rhagom at yr hyn sydd sylweddol a pharhaus, yr hyn sydd werthfawr er enyn a meithrin y bywyd ysprydol o'n mewn, yr hyn sy'n abl i'n gwneyd yn ddoeth i iechydwriaeth, ac i'n helpu i fyw gwell a godidocach bywyd yn y byd sydd yr awrhon? Yn hytrach nag ymryson am y wisg a'r adduniadau, onid gwell fyddai i ni eistedd i lawr ar unwaith a chyfranogi o'r gwleddoedd o ddoethineb ac o brofiad duwiol a gawn wedi eu haulwyo yn y Beibl ar ein cyfer?

Mae yn y testyn ddau beth yn galw am ein sylw: I. Teimlad o brudd-der a siomedigaeth chwerwdost. "Yr Arglwydd a'm gwrthodd," &c. II. Y sicrwydd o dynerwch a dianwadalwch y cariad dwyfol. "A annghofia gwraig ei phlentyn sugno!"

I. Mae adegau wedi bod, yn dra thebyg, yn mywyd pob dyn pan oedd yn barod i dori allan mewn geiriau cyffelyb i'r rhai hyn. Pob un sydd yma yn awr, wedi gweled bagad o flynyddau ar y ddaear, ac wedi cael tipyn o brofiad yn y byd, odid na ddarfu iddo mewn rhyw galedi neu gilydd, ddychymygu yn ei galon, os nad dweyd mewn geiriau, fod yr Arglwydd wedi ei wrthod ac wedi ei annghofio. Nid oes yr un o honom a all fyned i mewn i ystafelloedd calon ei gymmydog, a gweled olion pa dristwch, neu alar, neu siomedigaeth, sydd wedi eu gadael yno. Pob calon a ŵyr am ei chwerwder ei hun.

"Y mae dannedd mân gan brudd-der,
Rhai na welir dim o'u llun,
A ddifethant bob yn 'chydig
Nerth a gallu enaid dyn."

Mae rhyw brudd-der neu gilydd wedi bod wrth ei waith yn y fynwes, yn y dydd, yn difa nerth a hoywder yr yspryd, ac yn tori ar dawelwch ei orphwysfa yn y nos. Amserau wedi bod pan nad oedd ond cymmylau a thywyllwch o amgylch yr orsedd fawr, Duw fel wedi gadael y ddaear, wedi anghofio gwneuthur barn, ei ffyddlondeb wedi pallu. Iaith yr enaid y pryd hwnnw oedd, —"Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c. (1). Y trallod cyssylltiedig a

chystudd neu farwolaeth fydd weithiau yn achosi y teimlad hwn. Gelwir arnom oll i fod yn dystion o'r naill a'r llall ar ryw adeg neu gilydd o'n bywyd, ac ni ddianc yr un o honom rhag eu profi ryw dro yn ein personau ein hunain. Weithiau daw cystudd i mewn i deulu, ac yno bydd yn oedi ac yn oedi fel pe yn anfoddlawn i ymadael yn waglaw. A pha mor fynych y gwelwn ôl yr angeu yn ein gwahanol gylchoedd, a'r galon rwygedig yn galaru ei cholled, anadferadwy hollol i'w golwg ar y pryd? Ti gollaist dad tyner a diwyd, neu fam gariadus a rhinweddol; dygwyd ymaith y brawd a garai ac a gerid gan bawb, neu'r chwaer ag oedd yn anadlu sirioldeb a serch ar bawb yn agos ati. Cipiodd angeu ymaith wraig dy fynwes, gan dy adael wrthyt dy hun i ymladd brwydr bywyd, ac ymdroi yn nghanol ei ofalon a'i drafferthion. Daufu rhyw lwydrew sarug ysgubo ymaith rai o'r blodau tyner oeddent yn dechreu agor yn ngardd y teulu, am dro fe gollodd bywyd ei holl swyn yn dy olwg; yr oeddit yn teimlo nad oedd dim yn werth byw o'i blegid mwy; yr hyn oedd wedi ei fynwesu fwyaf, hyny a ddygwyd oddiarnat. Pan geisit ymgysuro a gwisgo'r tristwch ymaith, yr oedd dy galon yn rhy lesg, dy obaith wedi ei glwyfo ac yn gorwedd yn archolledig; a chodai'r geiriau hyn i fyny o'r galon er dy waethaf: "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c.

(2) Mae rhyw gyfnewidiad disymwth a blin yn yr amgylchiadau bydol brydiau ereill yn achlysur i'r un teimlad. Fe'th oddiweddwyd gan ryw anffodion trymion, dy golledion yn ormod i ti allu eu dwyn; cefaist dy daro gan ryw ergyd o aflwyddiant yn dy alwedigaeth neu dy fasnach, fe fethodd rhai o'th gynlluniau gonest tuag at gynnaliaeth dy deulu. Fe'th siomwyd mewn rhyw obaith hoffus, oeddit wedi ei hir goleddu yn ngwaelodion dy galon; rhywbeth y breuddwydit am dano pan yn llanc, y parotoit ar ei gyfer yn rhymhoi dy ieuenctid. Megys mewn noswaith fe wywodd nes nad oedd dim ond malldod a lludw lle o'r blaen yr oedd gwyrddlesni a phrydferthwch dengar. Fe giliodd y gobaith o'r galon, gan adael ei le yn wag. Byth oddiar hyny mae ei le yna fel rhyw ystafell wag a thywyll mewn tŷ nad oes troed yn sangu ynddi, na llais dynol byth yn tori ar ei thawelwch; ac yn nghyfyngder dy ysbryd, yn chwerwder dy enaid, ti a ddywedaist: "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c.

(3) Mae y iaith hon yn gosod allan hefyd y wasgfa a'r ing a deimlwn weithiau mewn cysylltiad ag edifeirwch am bechod, pan mae'r meddwl yn cael ei ddihuno i weled ffolineb ac ynfydrwydd y llwybrau y buwyd yn rhodio ar hyd-ddynt. Mae yma rywun, fe ddichon — plentyn i rieni rhinweddol a da, plentyn feallai a dderbyniodd addysg dda oddiwrthynt yn moreu oes. Ti fuost yn blentyn eu gweddiau a'u dymuniadau dwysaf; hwy a ymaflent yn dy law yn awyddus i'th roi i rodio ar hyd ffyrdd rhinwedd a duwioldeb, lle yr oedd eu hyfrydwch penaf hwy. Pan ymadawaist â'r hen nyth dawel, ddedwydd, ac y taflwyd di i blith temtasiynau byd a chnawd, yn mhoethder dy nwydau, ar ryw [awr] anystyriol a byrbwyll, fe'th ddenwyd i gellwair â phleserau gwenwynig pechod. Ar ol dechreu yr oedd yn anhawdd troi yn ol, yn mlaen ar lithrigfa yr êst o gam i gam, yr hen gynghorion a'r esiamplau da a gefaist yn dy wneyd ar brydiau yn anesmwyth; cydwybod lân dy febyd yn dy gyhuddo, ond yn fuan yn cael eu dystewi gan naws a llawenydd pechod. Yn raddol crwydraist yn mhell o lwybrau dy addysg foreu, a chofleidiast arferion a wisgant dy wyneb *yn awr* pan feddyliot am danynt â chywilydd,—arferion nad yw y cleisiau a'r creithiau a dderbyniaist oddiwrthynt hyd eto wedi eu llwyr iachau. Pan ddaeth rhywbeth a roes atalfa ar dy rediad gwyllt, gan ddwyn ar gof i ti dy dad,

ac oriau mebyd ac ieuenctyd—dedwydd am eu bod yn rhinweddol—pan deimlaist faich dy gamweddau fel mynydd o blwm yn pwyso ar dy ysgwyddau; pan ruai'th gydwybod fel arthes wedi colli ei chenawon; pan yr aeth hi mor dywyll, mor helbulus, mor gyfyng arnat, fel na wyddit pa le i droi, heb deimlo llwybr rhydd hyd yn nod at y Tad cariadlawn ei hun, a thoraist di ddim allan: "Mwy yw fy anwiredd nag y gellir ei faddeu;" "Yr Arglwydd a'm gwrthododd," &c.?

(I'w barhau).

[Ar gais un o ddarllenwyr henaf YR YMOFYNYDD, gosodir yn y rhifyn hwn y bregeth uchod gan y diweddar Gwilym Marles. Diau fod y cais wedi codi oddiar y ffaith fod yr un gyfeirir ati uchod yn rhy hen i fynychu lle o addoliad bellach, ac ymfalchia yn y ffaith ei bod yn ddarllenwraig o'r YMOFYNYDD er y cychwyn, ac yn ei dderbyn yn rheolaidd ei hunan er 1863. Nid oes yn awr wedi eu gadael ond ychydig all ddweyd yr un peth]

PRIODAS.

SUL, Chwef. 14, yn Tabernacle, Pontardawe, o flaen y Cofrestrydd, Mr. Noah L. Davies, a'r Parch. H. S. Williams, priodwyd Mr. Howell J. Thomas, Gellinudd, a Mrs. Maggie Edwards, Pontardawe

MARWGOFION

CHWEFROR 4ydd, mewn oedran teg, bu farw Jane Thomas, anwyl briod Joshua Thomas, Llwyndewi, Cellan, a chyn hyn o Ffosyffin, yn yr un ardal. Yr oedd Mrs. Thomas wedi mwynhau iechyd rhagorol hyd rhyw flwyddyn neu ddwy i'r diwedd, ond gorfu iddi gadw i'w haelwyd ac i'r gwely ar y diwedd. Gwraig ddeallus a darllengar ydoedd, yn hanu o hen deulu Undodol ymhlwyf Llanwenog. Yr oedd yn gymeriad cadarn ac o welediad pellach na'i cyffredin. Claddwyd y dydd Iau dilynol ym mynwent Eglwys Llanwenog. Gwasanaethwyd yn yr angladd (anghyhoedd) yn y ty gan y Parch. T. O. Williams, ac yn y fynwent gan gurad y plwyf. Gadawodd briod mewn unigedd ar ei hol, chwaer, a thri mab mewn sefyllfaoedd rhagorol—Mr. T. Thomas, Chemist, Llundain; Dr. Herbert Thomas, Llundain, a Dr. Daniel Thomas, Rhondda.

DYDD Llun, Chwefror 5ed, yn 63 mlwydd oed, Catherine, anwyl wraig John Jones, Laurel Cottage, Pontardawe. Claddwyd y dydd Iau canlynol with Gellionen. Gwasanaethodd y Parch. D. G. Rees, a chynorthwywyd gan y Parch. J. Price, Rhydyfro. Cofiwn yr ymadawedig yn meddu gwell iechyd nag y daeth i'w rhan yn ystod tymor olaf ei bywyd. Dioddefodd lawer o boenau o bryd i bryd, a gall y byw, heddyw, deimlo rhyddhad a gollyngdod fod y dioddefydd wedi croesi ffin i fyd diboen. Bu yn aelod crefyddol flwyddi maith, a bu yn ffyddlon hyd y gallai. Da meddwl fod y plant oll wedi eu codi i fynny, ac yn abl i rwyfo bob un ei gwch. Rendith Duw ar y gweddw unig, y plant, a'r wyrion, a heddwch i'w llwch hithau.

CHWEFROR 11eg. yn 5 mlwydd oed, bu farw Berwyn Hughes, mab Mr. a Mrs. David Hughes, 5 Harford Row, Llanbedr, wedi cystudd maith a chaled. Cafodd y "Rheumatic Fever" ysbaid yn ol, ac ni fynnai mo'i adael nes cael Berwyn bychan siriol yn aberth iddi. Claddwyd y dydd Mercher canlynol ym mynwent Eglwys Brondeifi. Gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. T. O. Williams, B.A., gyda chynorthwy caredig y Parch. R. C. Jones. Gadawodd dad a mam, brawd a chwiorydd, i alaru'n hiraethlon ar ol Berwyn.

CHWEFROR 21, yn 28 mlwydd oed, bu farw Elizabeth Harries, Cilgellganol, Pencarreg, Llanbedr. Y Sul cyn hyn yr oedd yn ei hiechyd arferol, ond cyn yr hwyr yr oedd yngafael rhyw glefyd. Claf-ychodd mor sydyn fel gorfu iddi fyn'd tan driniaeth llawfeddyg, ond yn ofer, a hedodd ei hysbryd ymaith, gan adael priod a dwy amddifad fach, tad a mam, chwiorydd a brawd, i alaru ar ol mam dawel a darbodus, merch addfwyn a chwaer garedig, a chymydog hawddgar. Nid oedd ond amser byr er ei dyfod i'r ardal. Y dydd Llun dilynol daearwyd ei gweddillion marwol yn mynwent Eglwys Llanfihangel-ar-Ystrad. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan ei hen weinidog, y Parch. D. Evans, Cribyn, a phregethwyd gan y Parch. T. O. Williams. Gwasanaethwyd yn yr Eglwys ac ar lan y bedd gan Reithor y Plwyf.

MAWRTH 9, yn 74 mlwydd oed, Evan Thomas, Rhiw, Rhydcwmere, plwyf Llanybyther. Tarddai o gyff Undodaidd. Ei dad oedd Thomas Thomas, Beili-cadarn, Llanwnen, yr hwn oedd yn Undodwr. Priododd y Thomas Thomas hwn âg Elizabeth Morgans, Moelfre, yn yr un plwyf. Aethant i fyw i Llethr, Rhydcwmere, a symudasant oddi yno i Pwllcynbyd, yn yr un ardal. Dysgodd y tad Undodiaeth i'w blant, ac er fod yr ymadawedig yn byw yn awyrgylch Fethodistaidd, ac allan o gysylltiad ag un eglwys Undodaidd, daliodd i fod yn Undodwr drwy ei oes. Ac nid yn unig mewn proffes yr oedd yn Undodwr, ond harddai ei fywyd â'r egwyddorion ag y saif Undodiaeth drostynt. Er yn cael ei amgylchu gan bobl o ffydd wahanol, eto safai yn uchel ei barch yn eu plith. Yr oedd ei briod wedi ei ragflaenu er's llawer o flynyddoedd. Claddwyd y Mercher canlynol yn mynwent Eglwys Rhydybont. Gwasanaethwyd gan y Parch. L. Williams, Alltyblacca, a chymerwyd rhan gan y Parchn. Mr. Edwards, Llanfynydd; Mr. Morgan, Alltyblacca, a Mr. James, Rhydybont. Gadawodd dri mab, un brawd, a phedair chwaer mewn galar dwys ar ei ol.

MANION AC HANESION.

ALLTYBLACCA.—Prynhawn Mercher, Mawrth 21ain, cafodd yr Eglwys hon ei Gwyl Dê flynyddol. Rhoddwyd y Tê gan Mrs. Davies, Llanvaughan Cottage, a Mrs. Lewis Williams, Awelfryn. Cynorthwywyd with y byrddau gan amryw foneddigesau caredig perthynol i'r Eglwys. Yr oedd yr hin yn ddymunol iawn, a daeth nifer luosog i gyfranogi o'r danteithion. Rhoddwyd aurafal i bob un o'r plant. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd, pryd y cymerwyd y gadair gan y Gweinidog, ac arweiniwyd gan Mr. T. J. Jones, Ysgolfeistr, Llanwnen. Cyn dechreu ar waith y cyfarfod hwn, rhoddwyd llyfrau yn wobrau i'r rhai oedd wedi bod fwyaf ffyddlon gyda'r Ysgol Sul drwy y flwyddyn ddiweddaf. Yr oedd y gwobrau hyn yn cael eu rhoddi gan ysgrif-

enyddes a thrysoryddes yr Ysgol Sul, sef Mrs. Davies, Llanvaughan Cottage, a Miss Thomas, Castell House, Llanybyther. Yr oedd un o'r rhai a gafodd wobrau wedi cadw'r Ysgol am chwech mlynedd heb fod yn absenol o gwbl, ac un arall wedi ei chadw am bum' mlynedd. Yr oedd y Capel yn orlawn, ac er fod y rhaglen yn un faith ymddangosai pawb eu bod yn derbyn mwynhad hyd y diwedd. Arweiniwyd Côr y lle gan Mr. Watkin Davies, Blaencruser, a chyfeiliwyd gan Mr. Dan Davies, L.T.S.C., Belan House, Llanybyther. Terfynwyd drwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau," a chymerwyd yr unawd gan Miss Gwinnie Price, Alltyblacca.

CAPELYBRYN.—Prynhawn Gwener, Chwefror 22, cynhaliodd yr eglwys ei Gwyl Dê Flynyddol. Rhoddwyd y wledd gan Miss Davies, y Wern. Croesawodd bawb perthynol i'r Ysgol Sul a'r gynulleidfa, a llu mawr o'r tu allan. Un peth rhyfeddol yn nglyn a'r wledd hon oedd yr amrywiaeth mawr o ddanteithion oedd ar y byrddau, a phob un o honynt o'r fath oreu. Amlwg ydoedd fod ymdrech neilldnol wedi cael ei gwneyd, a hyny heb arbed traul, i wneyd y tê hwn yn un nodedig. Cynorthwywyd wrth y byrddau gan foneddigesau caredig perthynol i'r Eglwys, ac y mae eu nifer yn ormod i'w henwi. Yn yr hwyr cynhaliwyd cyngherdd lwyddianus iawn. Yr oedd y capel yn orlawn. Ar ddechreu y cyfarfod diolchodd llawer am y tê mewn cân a phenill. Cafwyd adroddiadau a dadleuon ac unawdau. Canodd côr y plant yn swynol iawn o dan arweiniad Mrs Cledlyn Davies, ac hefyd côr y bobl ieuainc o dan arweiniad Mr. Thomas Davies, Y Felin. Perfformiwyd Drama—Etholiad Gwarcheidwaid—a chafodd pawb fwynhad mawr wrth wrandaw ar hon. Cymerwyd y gadair gan y gweinidog, ac arweiniwyd yn hwylus iawn gan Mr. Cledlyn Davies. Ar ol diolch i Miss Davies am y wledd ragorol, ac i eraill fu yn cynorthwyo, a therfynu drwy ganu "Hen Wlad fy Nhadau," ymadawodd pawb wedi treulio amser difyr a llawen.

Y GRAIG A GELLIONEN. -- Da genym weled Cymdeithas y bobl ieuainc yn datblygu i fywyd a gweithgarwch yn y lle. Yn Ysgoldy y Graig nos Iau, Ionawr 18, darlithiodd Moelona ar "Nofel" i gynulliad da. Y llywyddes oedd Miss R. A. Bowen, Alaska. Eto yn y Graig nos Iau, Ionawr 25, cawd darlith gyda chymorth darlun-lusern ar Dde Affrig gan y Parch. A. Hall, M.A., Abertawe. Cadeiriwyd gan y Parch. D. G. Rees.——Hefyd yn yr Ysgoldy, nos Iau, Chwefror 1, rhoddwyd papyr diddorus ac adeiladol ar "Watcyn Wyn" gan Mr. J. J. Williams, a phenillion telyn gan Mr. Daniel Morris.——I ddilyn, nos Sadwrn, Chwefror 17, yn yr un lle, rhoddodd "Cyngerdd-barti Mond" raglen gyfoethog ac amrywiol, dan arweinyddiaeth Mr. Gibbon, Clydach, a daeth llonaid adeilad ynghyd, a chwareuodd y Gerddorfa ddarnau clasurol. Cyfeilydd, Mr. Llewelyn Davies.—— Eto, yn Ysgoldy y Graig, bu y Parch D G. Rees, ar gais aelodau'r Gymdeithas, hyfwyned a rhoddi, drwy "lusern," nifer o ddarluniau o Balestina, gydag ychydig nodiadau ac eglurhad ar bob un.——Yn yr un lle, a'r gweinidog yn llywyddu, a Mr. Isaac E. Hopkin yn cyfeilio, amrhegwyd Mr. Tommy Bowen, New Road, â Beibl, ar ran yr Ysgol Sul, gan Mr. John Hopkin; a llawffon, ar ran aelodau a chymdeithas y bêl droed, yn Nhrebanos, gan Mr. Emlyn Thomas I Mr. Hopkin Jones yr ydym yn ddyledus am y rhaglen amrywiol barotowyd.

Ymddengys y gweddill Manion ac Hanesion, sydd mewn llaw, y tro nesaf.

JUST PUBLISHED.

Cr. 8vo. Cloth 2/- net, Stiff Covers 1/6 net.

THE AUTHOR OF

NEARER, MY GOD, TO THEE

(SARAH FLOWER ADAMS)

By H. W. Stephenson, M.A.

The illustrations include a reproduction in facsimile of the original MS. of the hymn, "Nearer, my God, to Thee."

This Hymn, which first appeared in the Hymn Book of the South Place Unitarian Chapel, Finsbury, E.C., is more widely known than any other by a Unitarian writer. It is the expression of a faith that had endured many doubts and, at one time, seemed as though it would pass utterly away. This Memoir brings together all that is known of the life story of Mrs. Adams. Ministers and Teachers in Sunday Schools will do well to add it to the books already on their shelves; they will find it not only readable but useful as well.

Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2

Funeral Wreaths, Crosses, Harps,

And other designs, at short notice.

WEDDING BOUQUETS, &c.,

ROSE TREES, TOMATO PLANTS, BEGONIAS, GERANIUMS, LOBELIAS, PALMS, FERNS, &c. &c.

HARRY COYSH,

(Successor to the late JOSEPH COYSH, Nurseryman. Established 1875.)

Importer of Dutch Bulbs, Seedsman and Florist, Carmarthen.

Telegrams—Coysh, Carmarthen.

E. LLOYD JONES

BRADFORD HOUSE

LLANDYSSUL

For Suits and Costumes to order from 50s.

.. Mourning at Shortest Notice. ..

— Satisfaction Guaranteed. —

LONDON JOINT CITY AND MIDLAND BANK LIMITED

CHAIRMAN:

The Right Hon. R. McKenna

JOINT MANAGING DIRECTORS:

Frederick Hyde **Edgar W. Woolley**

Subscribed Capital	£38,117,103
Paid-up Capital	10,860,852
Reserve Fund	10,860,852
Deposits *(Dec. 31st, 1922)* ..	354,406,336

Local Offices:

Llandyssul: 9, Lincoln Street

PENCADER | PONTTWELLY

Manager: R. W. ROBERTS

Over 1,670 Offices in England and Wales

Head Office:

5, Threadneedle Street, London, E.C.2